



Papur y Bwrdd

02 Hydref 2014

Teitl y Papur:	Polisi Rheoli Risg
Cyfeirnod y Papur:	NRW B B 69.14
Paratowyd y Papur gan:	Clive Thomas, Cyfarwyddwr Llywodraethu

Pwrpas y Papur:	Cynnig polisi ar gyfer rheoli risg a'r camau nesaf perthnasol
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd gytuno ar y polisi risg a chymeradwyo'r camau nesaf.
Angen Penderfyniad:	Oes

Pwnc

1. Diben y papur yw mabwysiadu'n ffurfiol bolisi rheoli risg Cyfoeth Naturiol Cymru (**Atodiad 1**) a ystyriwyd yn wreiddiol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Medi 2013.

Cefndir

2. Risg yw'r posibilrwydd y bydd gweithred neu ddigwyddiad yn effeithio ar gyflawniad amcan a gynlluniwyd mewn ffordd andwyol neu fuddiol. Mae adnabod, asesu, monitro, rheoli ac adrodd am risgiau yn gyfrifoldeb ar bob aelod o staff ac o ganlyniad i reoli risgiau a nodwyd:
 - Mae'r amcanion a gynlluniwyd yn fwy tebygol o gael eu cyflawni
 - Mae risgiau andwyol yn llai tebygol o ddigwydd
 - Mae effaith risgiau andwyol sy'n cael eu gwireddu yn cael ei lleihau.
3. Mae rheoli risg yn effeithiol, felly, yn cael ei ystyried yn rhan hanfodol bwysig o'n gwaith oherwydd ei fod yn lleihau'n sylweddol y posibilrwydd y bydd pethau annisgwyl yn cael effaith andwyol arnom ac, ar yr un pryd, yn cynyddu hyder ein rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Canllawiau Trysorlys EM

4. Mae gwaith Trysorlys EM a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi tynnu sylw at nifer o welliannau dymunol yn y gwaith o reoli risg, gan gynnwys:
 - Gwella rheolaeth risg strategol ac arweinyddiaeth newid;
 - Ailgyhmwysu goddefgarwch yng nghyswllt cymryd risgiau a reolir yn dda a mentro'n ofalus;
 - Gwella galluedd wrth reoli risg;
 - Gwell rhagfynegiadau a'r gallu i fynd i'r afael ag ansicrwydd ac unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg; a
 - Mwy o bwyslais ar ddiwylliant ac ymddygiad.
5. I gefnogi'r gwelliannau hyn mae'r Trysorlys wedi datblygu canllawiau rheoli risg, gweler **Atodiad 2**, fel rhan o'r rhifyn diweddaraf o 'Managing Public Money' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r canllawiau wedi eu cynllunio i gynnig arweiniad craidd ar reoli risg ar gyfer adrannau'r llywodraeth a chyrff hyd braich. Mae'r canllawiau hyn yn debygol o gael eu cynnwys yn yr adolygiad nesaf o'r ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ac felly bydd yn sail i'n canllawiau risg ni.
6. Mae'r penderfyniad i gynnwys canllawiau risg yn Managing Public Money (yn hytrach na chanllaw ar wahân megis *The Orange Book*) yn cefnogi'r consensws y dylai rheoli risg fod yn rhan hanfodol o reolaeth gyffredinol, ac nid yn weithgaredd ar wahân.

Ein Polisi

7. Mae'r polisi sydd ynghlwm yn **Atodiad 1** wedi cael ei ddatblygu gyda mewnbwn gan Bennaeth Archwilio a Sicrhau Risg Cyfoeth Naturiol Cymru, Martin Veale. Mae Martin wedi cyfrannu fel 'ymgyngorydd' i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu er mwyn sicrhau nad yw'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cael ei pheryglu o ganlyniad i gyfrifoldeb rheoli am faes polisi a fydd yn cael ei archwilio yn y man.
8. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Tîm Gweithredol wedi ystyried a diwygio'r polisi drafft.

Adrodd Risg

9. Dylai adrodd risg fod yn hierarchaidd; mae gan bob aelod o'r staff rôl i ganfod a rheoli risg a dylai'r rhain gael eu cofnodi fel rhan o'r gwaith o greu cofrestri risgiau fesul tîm, cyfarwyddiaeth a chofrestr gorfforaethol.
10. Mae pob cyfarwyddiaeth eisoes wedi datblygu cofrestr risg fel rhan o Gynllun Cyflawni pob Cyfarwyddiaeth. Yn dibynnu ar faint a chymhlethdod pob cyfarwyddiaeth, efallai mai da o beth fydd i'r timoedd unigol gadw cofrestri risg lleol sy'n cyfrannu tuag at gofrestri ar lefel cyfarwyddiaeth. Yn ogystal, bydd prosiectau penodol (e.e. cynlluniau cyfalaf mawr, ffrydiau gwaith pontio) yn teilyngu cael eu cofrestri risg eu hunain a dylai'r rhain hefyd gael eu cynnwys yn y gofrestr ar lefel cyfarwyddiaeth. Dylai cofrestri risg y cyfarwyddiaethau gael eu hadolygu fel rhan o reolaeth barhaus y cyfarwyddiaethau ac yn fwy ffurfiol mewn cyfarfodydd rheolaidd o dimau'r cyfarwyddiaethau.
11. Mae cofrestri'r cyfarwyddiaethau yn cyfrannu at ffurfio cofrestr risg corfforaethol lefel uchel sy'n cofnodi'r risgiau uchaf yn y sefydliad. Mae'r risgiau hyn yn cael eu hystyried yn rheolaidd gan y Tîm Gweithredol a hefyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) fel eitem sefydlog ar yr agenda.
12. Yn ogystal â'n cofrestr risg corfforaethol sy'n canolbwyntio ar y materion gweithredol sy'n bennaf o dan reolaeth y sefydliad, mae'r PASR wedi bod yn trafod manteision sefydlu cofrestr risg strategol ar gyfer y risgiau rheoli adnoddau amgylcheddol a naturiol sy'n effeithio ar Gymru. Y farn gyfredol yw bod y dangosyddion lefel uchel yn ein Fframwaith Perfformiad yn darparu man cychwyn da ar gyfer yr ymarfer asesu risg yma a byddwn yn datblygu'r gwaith hwn yn y misoedd nesaf o dan arweiniad y PASR.

Y Camau nesaf

13. Fel sail ar gyfer rhoi'r polisi ar waith mae'r camau nesaf canlynol wedi'u nodi:
 - Cyfathrebu gwaith y Bwrdd ar archwaeth risg gwahanol, yn dibynnu ar y swyddogaeth dan sylw
 - Datblygu fersiwn gyfatebol, neu fyrrach, o Hanfodion Risg, canllaw Llywodraeth Cymru i reoli risg sydd wedi ei roi i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru fel ffordd dda o weithredu;
 - Cynhyrchu canllaw cyflym "risg ar dudalen". Drafft cyntaf - **Atodiad 3**

- Darparu hyfforddiant lle bo hynny'n briodol i annog dealltwriaeth (cafwyd tair sesiwn eisoes gan y Pennaeth Archwilio a Sicrhau Risg); a
- Gweithredu strategaeth gyfathrebu ehangach i gefnogi sefydlu diwylliant ymwybyddiaeth o risg ar draws y sefydliad.

14. Y nod allweddol wrth ddarparu canllawiau o'r fath yw sicrhau bod rheoli risg yn cael ei ymgorffori'n llawn ar bob lefel, wrth lunio cynlluniau strategol, wrth bennu polisiau ac wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn bwysig wrth annog cyflenwi gwasanaethau gwell a mwy effeithlon, defnyddio modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau a mynd i'r afael â thwyll a chamgymeriadau. Mae pob un o'r rhain yn gofyn am ymagwedd effeithiol, effeithlon, integredig a chymesur tuag at reoli risg.

Goblygiadau ariannol

15. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r papur hwn.

Risgiau

16. Amherthnasol.



Ein polisi risg

Mae'r datganiad hwn yn nodi ein hymrwymiad i reoli risgiau yn effeithiol a safon y rheolaeth risg mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei disgwyl o fewn y sefydliad.

Rydym yn benderfynol o reoli risg yn dda er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol. Ein bwriad yw dangos ymrwymiad parhaus i wella rheolaeth risg ar draws ein sefydliad.

Ein blaenoriaeth yw lleihau'r risgiau hynny sy'n effeithio ar adnoddau naturiol Cymru, a chymryd camau priodol i leihau ein risgiau ariannol, gweithredol a risgiau i'n henw da.

1. Ymwybyddiaeth: "mae gan ein holl bobl ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd, ein cydweithwyr a'n busnes"

Adnabod risg - bydd rheolwyr llinell yn annog staff i nodi risgiau fel nad oes unrhyw beth annisgwyl. Ni fydd staff yn cael eu beio nac yn cael eu hystyried yn rhy negyddol am nodi risgiau.

Atebolrwydd - byddwn yn nodi pobl sy'n gyfrifol am y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â risgiau.

Cyfathrebu - bydd cyfathrebu gweithredol ac aml rhwng staff a chyda rhanddeiliaid, partneriaid a chyflenwyr.

2. Cymhwysedd: "mae ein holl bob yn gymwys i reoli risg."

Hyfforddiant - byddwn yn darparu'r offer a'r sgiliau sydd eu hangen ar ein pobl i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Ymddygiad a diwylliant - bydd yr uwch reolwyr yn arwain newid drwy esiampl, gan sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli. Bydd staff rheng flaen yn cael eu hannog i nodi risgiau.

3. Rheoli: "mae ein holl weithgareddau yn cael eu rheoli gan ddefnyddio ein proses rheoli risg ac mae gan ein pobl y gallu i fynd i'r afael â risgiau"

Asesu a rheoli risg - byddwn yn asesu'r risgiau ac yn gweithredu i atal, rheoli neu eu lleihau i lefel dderbyniol. Bydd ein pobl yn cael y rhyddid a'r awdurdod y bydd angen arnynt i gymryd camau i fynd i'r afael â risgiau. Bydd cynlluniau wrth gefn lle bo angen.

Proses - byddwn yn gweithredu proses rheoli risg. Caiff hyn ei integreiddio gyda'n prosesau archwilio a rheoli perfformiad personol a phrosesau ein rhanddeiliaid, partneriaid cyflenwi a chyflenwyr.

Mesur perfformiad - byddwn yn mesur pa mor agored ydym i niwed yn sgil risg ac yn lleihau hyn dros gyfnod o amser. Byddwn hefyd yn mesur a gwella ein diwylliant rheoli risg.

4. Cyfleoedd: "yn ein holl reolaeth o risg byddwn yn ystyried cyfleoedd yn ogystal â bygythiadau"

Rheoli Cyfle – byddwn yn edrych nid yn unig ar y risg o bethau'n mynd o'i le, ond hefyd effaith peidio ag elwa ar gyfleoedd neu beidio â manteisio ar ein cryfderau.

Arloesi - rydym yn annog cymryd risgiau sydd wedi'u hystyried, arbrofi ac arloesi.

Cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg - byddwn yn fentrus ac yn llawn dychymyg wrth fanteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, ac fe fydd gennym werthfawrogiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â mentro ar ddatblygiadau newydd.

**Rheoli Arian Cyhoeddus – Gorffennaf 2013
Atodiad 4.3 - Risg****Yr achos o blaid rheoli risg**

Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus gael systemau ar gyfer nodi a rheoli risg - y cyfleoedd a'r bygythiadau – sy'n addas ar gyfer ei fusnes, ei amgylchiadau a'i archwaeth risg. Dylai'r bwrdd arwain y gwaith o asesu a rheoli risg, a chefnogi'r swyddog cyfrifyddu wrth lunio'r datganiadau llywodraethu.

A4.3.1 Mae pob sefydliad sector cyhoeddus yn wynebu amrywiaeth o sefyllfaoedd ansicr, yn gadarnhaol a negyddol, a all effeithio ar ei lwyddiant i gyflawni ei amcanion, cadw at ei gyllideb a darparu gwerth am arian. Felly, dylai bwrdd pob sefydliad yn y sector cyhoeddus fynd ati i geisio adnabod bygythiadau a chyfleoedd, a phenderfynu sut i ymateb iddynt, gan gynnwys sut i osod rheolaethau mewnol.

A4.3.2 Dylai rheoli risg gael ei integreiddio i'r systemau rheoli arferol ym mhob sefydliad yn y sector cyhoeddus er mwyn iddo gyflawni ei nodau a chynnal enw da o ran hygyrdd a dibynadwyedd. Mater i bob swyddog cyfrifyddu, gyda chefnogaeth y bwrdd, yw penderfynu sut.

A4.3.3 Ym mhob sefydliad, dylai'r bwrdd wneud dewis strategol ynghylch arddull, siâp ac ansawdd y broses o reoli risg. Gelwir hyn yn oddefgarwch risg, h.y. i ba raddau y mae'r sefydliad yn fodlon derbyn colled neu anfantais naill ai ym mherfformiad ei wasanaethau rheolaidd neu er mwyn sicrhau gwell canlyniadau. Bydd y risg gwahanol a oddefir yn berthnasol i amgylchiadau, rhaglenni neu bolisiau gwahanol, e.e. prin y gellid goddef methiant gwasanaeth ar gyfer rhaglenni neu bolisiau cwbl hanfodol, lle y byddai cyrff buddsoddi yn poeni mwy am sicrhau llwyddiant ariannol ar draul rhai methiannau. Dylai byrddau fod yn barod i fabwysiadu ymagwedd gymesur fel nad yw risgiau llai pwysig yn crynhoi a'r rhai hanfodol yn cael eu hanwybyddu.

Rheoli risg yn ymarferol

A4.3.4 Dylai arweiniad strategol y bwrdd ar archwaeth risg dreiddio trwy raglenni, polisiau, prosesau a phrosiectau pob sefydliad. Dylai benderfynu sut mae dirprwyaethau a threfniadau adrodd yn gweithio fel y gellir sylwi ar wyriadau o'r cynllun a mynd i'r afael â nhw'n brydlon.

A4.3.5 Dylai adborth o lefel y gweithwyr hefyd lywio pob ailasesiad o risg a wna'r bwrdd. Felly dylai rheoli risg fod yn gylch parhaus o asesu ac adborth, gan ymateb i wybodaeth a datblygiadau newydd. Mae hanfodion y broses wedi'u crynhoi ym mlwch A4.3A.

A4.3.6 Dylai pob sefydliad benderfynu sut y dylai'r cylch hwn weithio, yn unol â'i amgylchiadau, blaenoriaethau ac arferion gwaith. Gyda chefnogaeth y Bwrdd, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu fod â'r gair olaf bob amser, gan gymryd golwg eang a chadw cysylltiad ar draws y sefydliad cyfan.

Blwch A4.3A: amlinelliad o'r cylch rheoli risg

- 1 Mae'r bwrdd yn diffinio goddefgarwch risg y sefydliad.
- 2 Mae'r sefydliad yn nodi ac yn categorïddio ei risgiau.
- 3 Mae'r sefydliad yn asesu'r risgiau a nodwyd: pa mor debygol yw eu heffaith bosibl, gan nodi pa rai na allant eu goddef a phryd.
- 4 Mae'r bwrdd yn edrych y tu hwnt i'r gorwel am unrhyw risgiau nas nodwyd.
- 5 Mae'r bwrdd yn penderfynu pa risgiau sydd o bwys a pha gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl.
- 6 Trwy ddirprwyo rheolaeth, ynghyd â derbyn adroddiadau o risgiau trwy rengoedd y sefydliad, gall y bwrdd olrhain perfformiad.
- 7 Gan ddefnyddio'r adborth hwn, mae'r bwrdd yn cymryd trosolwg cyfannol, a gall addasu penderfyniadau e.e. ar oddefgarwch neu ar ymateb.
- 8 Yn ôl i gam 1 ac ailadrodd fel y gwêl y bwrdd yn dda.

Adnabod risgiau

A4.3.7 Mae'n bwysig nodi holl risgiau'r sefydliad er mwyn iddynt gael eu gwerthuso'n iawn yn eu cyd-destun.

A4.3.8 Mae yna werth mewn cael pob rhan o'r sefydliad i ystyried ei risgiau ei hun. Ar lefel gweithio gall risgiau gweithredol ymddangos yn sylweddol iawn. Efallai mai dim ond ar lefel y bwrdd, y mae'n bosibl edrych ar y darlun cyfan am dueddiadau, problemau neu gyfleoedd sy'n datblygu a allai newid amgylchedd gwaith y sefydliad. Dangosir rhai o'r risgiau allweddol y mae'n hawdd eu hesgeuluso ym mlwch 4.3B.

Blwch A4.3B: enghreifftiau o risgiau y mae'n hawdd peidio sylwi arnynt

- risgiau diogelwch gwybodaeth: Gall gwybodaeth ddigidol sydd heb ei diogelu gael ei cholli neu ei chopio.
- Risgiau tebygolrwydd isel effaith uchel: risgiau annhebygol gydag effaith ddifrifol os byddant yn digwydd.
- Risgiau cyfle: lle y gallai rhai dewisiadau atal dewisiadau eraill;
- Risgiau o un pen i'r llall: a ddaw i'r amlwg pan fydd cadwyn weithredol yn methu ar yr un pryd mewn sawl man fel rhan o set gysylltiedig o brosesau.
- Risgiau rhyng-sefydliadol; sy'n gallu achosi methiant busnes sefydliad oherwydd ei gysylltiadau â phartneriaid, cyflenwyr a rhanddeiliaid eraill.
- Risgiau cronol: sy'n digwydd os yw sawl risg yn digwydd ar unwaith, e.e. mewn ymateb i'r un sbardun.

A4.3.9 Yn ogystal â dwyn ynghyd asesiadau risg o fewn y sefydliad, gall fod o fudd i ddefnyddio ffynhonnell allanol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth pwysig wedi cael ei esgeuluso. Weithiau gall gwahanol sefydliadau yn y sector cyhoeddus fod yn gymorth i'w gilydd yn y modd hwn, gan fanteisio'r naill ar y llall. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i gael staff i weithio gyda'i gilydd i ystyried y pwnc, e.e. mewn grwpiau gyda rhywun i'w cynorthwyo.

A4.3. Unwaith bydd risgiau'r sefydliad wedi'u nodi, mae'n bosibl llunio cofrestr risg. Mae hon yn rhestr o risgiau cydnabyddedig y gellir eu cadw'n gyfoes ac y gall y bwrdd ei adolygu'n rheolaidd. Mae angen i bob sefydliad benderfynu sut i flaenoriaethu pa elfennau sy'n fwyaf agored i risg fel y gall y bwrdd, ar sail gwybodaeth, fabwysiadu ymagwedd strategol i risg ar gyfer y sefydliad cyfan.

Ymateb i risg

A4.3.11 Mae angen i bob sefydliad benderfynu a yw'n dymuno ymateb i'r risgiau a nodwyd, ac os felly sut. Mae rhai ymatebion safonol wedi'u rhestru ym mlwch A4.3C.

Blwch A4.3C: rhai ymatebion safonol i risg

Trin: ymateb cyffredin. Gall triniaeth olygu gosod rheolaethau fel y gall y sefydliad barhau i weithredu; neu sefydlu technegau atal. Gweler y blwch 4.3D ar gyfer triniaethau posibl.

Trosglwyddo: Gallai sefydliad arall gyflawni gweithgaredd y mae ganddo fwy o arbenigedd ynddo. Nid yw yswiriant fel arfer yn agored i sefydliadau yn y sector cyhoeddus ond mae mathau eraill o drosglwyddo, e.e. ddefnyddio biwro cyflogres. Ni all rhai risgiau gael eu trosglwyddo, yn enwedig y risg i enw da.

Felly, dylai sefydliadau sy'n dewis dirprwyo sicrhau eu bod yn goruchwyllo eu hasiantau, gan sicrhau bod modd cymryd camau i adfer y sefyllfa pan fydd angen.

Terfynu: gall fod yn well rhoi'r gorau i (neu i beidio â dechrau) gweithgareddau sy'n cynnwys risgiau annioddefol neu'r rhai lle byddai peidio ag ymateb yn gostwng y risg sydd ar ôl i lefel oddefol, e.e. prosiectau sy'n methu lle mae'n rhatach i ddechrau eto. Nid yw'r opsiwn hwn bob amser ar gael yn y sector cyhoeddus, sydd weithiau yn gorfod ysgwyddo risgiau anodd - rhai annhebygol gan amlaf, ond a allai fod yn ddifrifol – lle byddai'r sector preifat yn dewis osgoi. Goddef: ar gyfer risgiau lle gall yr anfanteision gael eu goddef gyda chynlluniau wrth gefn priodol; ar gyfer rhai lle na ellir cyfiawnhau y rheolaethau posibl (e.e. oherwydd y byddent yn anghymesur); ac ar gyfer risgiau na ellir eu hosgoi, e.e. terfysgaeth.

Manteisio ar y cyfle: Gall byrddau gofleidio rhai risgiau, gan dderbyn eu hanfanteision efallai gyda rheolaethau neu gamau ataliol, gan ddisgwyl canlyniadau buddiol. Gall osgoi pob risg fod mor anghyfrifol â diystyru risg.

A4.3.12 Wrth ddewis sut i ymateb, y prawf asid yw a fydd y risg sy'n weddill yn sgil gweithredu yn dderbyniol. Dylai pob rheolaeth fod yn realistig, yn gymesur â gostyngiad arfaethedig y risg, ac yn cynnig gwerth da am arian. Rhestrir y mathau mwyaf cyffredin ym mlwch A4.3D.

Blwch A4.3D: rheolaethau cyffredin

Camau ataliol: mesurau i ddileu neu gyfyngu ar ganlyniadau annymunol, e.e. gwella hyfforddiant neu ymwybyddiaeth o risg; neu atal trosglwyddo gwybodaeth ddigidol gan ddefnyddio cofbinau. Gwyliwch rhag gorfodi costau diangen neu ddifrodi arloesedd.

Rheolaethau cywirol: mesurau i ymdrin ag agweddau niweidiol risgiau sydd wedi'u gwireddu, e.e. cymalau i adennill cost methiant contract. Mae'n cynnwys creu cynllun wrth gefn.

Rheolaethau cyfarwydddeb: mesurau a gynlluniwyd i bennu'r ffordd y mae proses yn cael ei gweithredu er mwyn atal rhai mathau o niwed posibl amlwg, e.e. gofynion hylendid.

Rheolaethau ditectif: mesurau i ganfod niwed fel y gellir ei gywiro'n gyflym. Mae'n arbennig o ddefnyddiol lle nad yw atal yn briodol, ond gall gwiro'n fanwl fod yn ddefnyddiol mewn mannau eraill, e.e. rheoli stoc.

A4.3.13 Ym mha ffordd bynnag y caiff ei drin, mae gan amlaf yn amhosibl dileu pob risg. Byddai'n aml yn werth gwael am arian i wneud hynny pe bai'n bosibl. Felly mae'n arfer da i gysylltu gosod rheolaethau gyda chynllunio wrth gefn er mwyn medru ymdopi â'r niwed a ddaw pan fydd nifer o risgiau'n codi'r un pryd. Mae llawer o sefydliadau yn gweld budd o redeg prawf ar y cynlluniau hyn: yn gyntaf i wirio eu bod yn gweithio, yn ail i wneud yn siŵr eu bod yn gymesur ac yn drydydd i gael gwared ar unrhyw nodweddion diangen a allai godi.

Y Bwrdd Rheoli

A4.3.14 Mae rheoli risg yn dasg llywodraethu allweddol i'r bwrdd. Dylai gymryd golwg strategol ar risg yn y sefydliad yn y rownd¹

A4.3.15 Mae'n arfer da i'r bwrdd ystyried risg yn rheolaidd fel rhan o'i lif arferol o wybodaeth rheoli am weithgareddau'r sefydliad. Mae'n arfer da i bob haen o reolwyr roi sicrwydd i'r haen nesaf i fyny am ei berfformiad, gan atgyfnerthu cyfrifoldeb drwy'r strwythur, gan ddwyn ynghyd yr holl fewnbwn perthnasol y gellir yn rhesymol ei ddefnyddio. Er enghraifft, gallai ystyried i ba raddau y mae risgiau yn rhyngweithio, yn cronni neu'n canslo ei gilydd. A dylai'r bwrdd ystyried risg ym mhob un o'i benderfyniadau pwysig.

A4.3.16 Mater i bob bwrdd yw penderfynu pa mor aml y mae am ystyried risg. Mae rhai yn gosod amserlenni rheolaidd i ystyried y gofrestr risg gyfan, ac eraill yn dewis edrych ar rannau o'r gofrestr risg mewn dilyniant rheolaidd. Mae craffu o'r math hwn yn galluogi'r bwrdd i asesu datblygiadau yn eu cyd-destun a gwneud penderfyniadau hyderus ynghylch eu perthnasedd a'u harwyddocâd.

A4.3.17 Mae'n arfer da i'r bwrdd wneud yr asesiadau hyn ar gyngor ei Bwyllgor Archwilio, er y dylai fod a'i farn ei hun. Gall pwyllgorau archwilio hefyd ychwanegu gwerth drwy fynd ar drywydd gweithredu ymatebion y sefydliad i adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Dylai pob Pwyllgor Archwilio gael ei gadeirio gan aelod anweithredol o'r bwrdd, gan ddefnyddio mewnbwn o weithgareddau archwilio mewnol ac adrodd mewnol y sefydliad.

¹ Er enghraifft, defnyddio rheoli risg menter neu ddull cyfatebol i osod rheoli risg wrth wraidd rheolaeth y sefydliad fel y gwneir yn yr enghraifft ar wefan y Sefydliad Rheolaeth Risg (Institute of Risk Management) <http://www.theirm.org/ISO31000guide.htm>

A4.3.18 Ar ôl pwyso a mesur y risgiau a nodwyd, dylai'r bwrdd hefyd geisio canfod risgiau nas nodwyd - gall rhai ohonynt fod yn bur annhebygol. Er nad yw'n rhestr hirfaith, mae Blwch 4.3b yn cynnig rhai posibiliadau. Gall y broses hon arwain y bwrdd i ailystyried ei strategaeth ar oddefgarwch risg.

A4.3.19 Ffocws defnyddiol o waith risg y bwrdd yw cefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu wrth iddo baratoi'r datganiad llywodraethu i'w gyhoeddi yn ei adroddiad blynyddol (gweler atodiad 3.1). Dylai gynnwys adroddiad ar sut mae'r sefydliad wedi ymateb i risg a'r hyn y mae'n ei wneud i leihau a rheoli risg; a sut mae hefyd yn manteisio ar gyfleoedd.

A4.3.20 Yn fwy cyffredinol, dylai'r bwrdd wneud yn siŵr bod gwersi'n cael eu dysgu o brofiad y sefydliad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos methiannau canfyddedig, e.e. risg annisgwyl neu risg wedi ei chrisialu a drodd allan yn fwy niweidiol na'r disgwyl. Ond mae'r un mor wir am lwyddiannau, yn enwedig y rhai lle mae risg a reolir yn dda, er mwyn gweld a oes unrhyw beth i'w ennill drwy ailadrodd technegau effeithiol mewn mannau eraill.

A4.3.21 Yn olaf, dylai'r bwrdd ystyried a yw risgiau'r sefydliad yn cael eu trin yn briodol. Os yw niwed wedi cael ei atal, gall fod yn bosibl addasu'r ymateb presennol i risg i gyflawni canlyniadau'r un mor llwyddiannus gyda thechnegau llai drud neu lai ymwthiol, e.e. gosod camerau diogelwch yn lle rheolaethau ffisegol.

Grwpiau adrannol

A4.3.22 Mae bron holl adrannau'r llywodraeth yn noddi un neu fwy o gyrff hyd braich (ALBs) y maent yn y pen draw yn gyfrifol amdanynt wrth ganiatáu rhywfaint (neu weithiau tipyn) o annibyniaeth iddynt (gweler pennod 7). Mae cyfrifon y gyrff hyd braich hyn yn cael eu cyfuno â chyfrifon yr adran sy'n eu noddi, gan bwysleisio bod y noddwr yn sefyll y tu ôl iddynt.

A4.3.23 Mae'n dilyn y dylai bwrdd pob adran ystyried proffil risg y grŵp gan gynnwys busnesau ei gyrff hyd braich. Gall rhwymedigaethau posibl rhai gyrff hyd braich (e.e. yn y maes niwcLEAR) fod mor fawr fel y gallant daflu cysgod dros yr adran ei hun, felly mae hyn yn hylendid hanfodol.

Cyfeiriadau:

The Orange Book: <https://www.gov.uk/government/publications/orange-book>
Canllawiau eraill ar risg gan y Trysorlys:

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130129110402/http://www.hm-treasury.gov.uk/psr_governance_risk_riskguidance.htm

Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar reoli risgiau mewn llywodraeth:

<http://www.nao.org.uk/report/managing-risks-in-government/>

Canllaw ymarferol Adran Actiwari'r Llywodraeth i reoli risg strategol:

http://www.gad.gov.uk/Knowledge_Centre/Strategic_Risk_Management.html

Atodiad 3 – Risg ar Dudalen

Adnabod eich risgiau	Asesu eich risgiau	Mynd i'r afael â'ch risgiau	Adolygu ac adrodd ar eich risgiau																																
Yn cael ei yrru gan amcan: ystyriwch risgiau yng nghyswllt yr effaith y byddant yn ei chael ar gyflawni ein Cynllun Busnes Risg: rhywbeth a all gael effaith ar gyflawni amcanion. Mae'n cynnwys risg fel cyfle yn ogystal â bygythiad. Mathau o Risg: rheoli newid, cydymffurfiaeth, allanol, ariannol, gweithredol, risg partneriaeth, prosiect, enw da, cyhoeddus a strategol. Strwythur: sicrhau bod risgiau yn cael eu disgrifio'n iawn: e.e. "Os nad ydym yn adolygu a rheoli ein cyllideb, yna mae perygl y byddwn yn gorwario."	Canlyniadau: "Be' di'r ots?"- amgylcheddol, ariannol, cyfreithiol, gweithredol, gwleidyddol, enw da, cymdeithasol. Graddfa risg: dosbarthiad pob risg, yn seiliedig ar ei thebygolrwydd a'i heffaith bosibl. Tebygolrwydd: sgoriau 1 (annhebygol) i 5 (tebygol iawn) Effaith: sgoriau 1 (di-nod) i 5 (critigol) Yn gyffredinol: graddfa risg yn seiliedig ar fatrics 5x5: <table><tr><td></td><td colspan="5">Effaith</td></tr><tr><td rowspan="5">Tebygolrwydd</td><td>5</td><td>10</td><td>15</td><td>20</td><td>25</td></tr><tr><td>4</td><td>8</td><td>12</td><td>16</td><td>20</td></tr><tr><td>3</td><td>6</td><td>9</td><td>12</td><td>15</td></tr><tr><td>2</td><td>4</td><td>6</td><td>8</td><td>10</td></tr><tr><td>1</td><td>2</td><td>3</td><td>4</td><td>5</td></tr></table>		Effaith					Tebygolrwydd	5	10	15	20	25	4	8	12	16	20	3	6	9	12	15	2	4	6	8	10	1	2	3	4	5	Terfynu: cymryd camau cyflym, pendant i gael gwared ar y risg. Goddef: gwyllo'r risg i sicrhau nad yw ei thebygolrwydd neu ei heffaith yn newid. Trosglwyddo: trosglwyddo'r risg i rywun arall, fel arfer y tu allan i Cyfoeth Naturiol Cymru. Trin y risg: cynllunio cyfres o gamau lliniaru i ostwng y risg i lefel dderbyniol. Gwrthfesuau: y mesurau presennol sydd gennych ar waith i gadw risg ar lefel dderbyniol neu i leihau'r bygythiad. Cynllun wrth gefn: gweithred neu drefniant y gellir eu rhoi ar waith i leihau effaith risg pan fydd wedi digwydd. .	Adolygu: ychydig o risgiau sy'n parhau'n sefydlog: Gall y risgiau presennol newid a gall risgiau newydd ddod i'r amlwg. Cofrestri risg gweithredol: cofnod o risgiau canfyddedig fel y maent ar hyn o bryd, i'w monitro'n rheolaidd. Dylai'r rhain nodi'n glir ganlyniadau, gwrthfesuau a chynlluniau wrth gefn, yn ogystal â pherchennog y risg. Cofrestr risg gorfforaethol: y bygythiadau allweddol i gyflawni ein hamcanion; sy'n cael eu hadolygu'n strategol gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn rheolaidd. Mewnosod: gwneud rheoli risg yn rhan o iaith y sefydliad wrth wneud penderfyniadau.
	Effaith																																		
Tebygolrwydd	5	10	15	20	25																														
	4	8	12	16	20																														
	3	6	9	12	15																														
	2	4	6	8	10																														
	1	2	3	4	5																														